Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel
**Neuadd y Sarnau,**
**Sarnau**
**Y Bala**
**LL23 7LG**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/03/2015**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel sydd wedi`i leoli yn y neuadd gymunedol lleol yn Sarnau – pentref bach gwledig rhyw 4 milltir o`r Bala. Mae`n cael ei gefnogi gan Fudiad Meithrin a Phartneriaeth Gofal Plant a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar Gwynedd. Mae`r lleoliad yn dyddio`n ôl i 1984 ac ar agor ar hyn o bryd rhwng 9.00 y.b. a 11.30 y.b. bob borau o'r wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener). Mae wedi`i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ofalu am uchafswm o 24 o blant. Mae`r plant sy`n mynchu`n dod o`r ardal wledig gyfagos a daw`r mwyafrif o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Ar hyn o bryd, mae 17 o blant rhwng tair a phedair oed. Mae`r plant yn symud ymlaen i`r ysgol gynradd leol yn y mis Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Adeg yr arolygiad, roedd 15 o blant tair oed yn mynychu gyda 14 yn cael eu hariannu. Mae nifer y sesiynau sy`n cael eu mynychu gan unigolion yn amrywio yn ôl dewis rhieni.

Mae`r lleoliad yn cael ei staffio gan arweinydd a dau gynorthwy-ydd. Mae ganddynt gymwysterau a phrofiad addas.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan AGGCC ym mis Hydref 2013 ac ym Mawrth 2009 gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae`r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ymwybyddiaeth drwyadl o`u hanghenion
- Mae`r holl blant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni`n dda – mae lleiafrif yn cyflawni`n dda iawn
- Mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda gydag agwedd dda at ddysgu
- Mae`r profiadau dysgu wedi`u cynllunio`n dda, yn gyffrous ac yn llwyddo i gymell y plant i ddysgu
- Mae`r tasgau`n cyfateb yn dda i allu`r plant a`u cyflawniad blaenorol
- Mae`r berthynas rhwng plant a rhwng plant ac oedolion yn dda iawn
- Mae`r holl blant yn elwa o gyfleoedd gwerh chweil i ddatblygu`u hannibyniaeth
- Mae gan y lleoliad ethos da iawn lle mae`r holl blant yn cael eu gwerthfawrogi a`u parchu
- Mae`r partneriaethau sydd wedi`u sefydlu`n cael effaith fuddiol ar gynnydd y plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda iawn gyda hanes da o wella
- Mae gan yr arweinydd synnwyr cryf o ddiben ac yn canolbwyntio`n dda ar wella darpariaeth ar gyfer y plant
- Mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant
- Mae`r lleoliad wedi elwa o`r gefnogaeth gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin
- Mae`r lleoliad yn cael ei gefnogi`n dda gan ei Bwyllgor Rheoli a rhieni
- Mae safonau yn uchel, mae`r plant yn derbyn gofal da ac mae`r lleoliad yn darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i`r plant ddatblygu eu medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

A2 Ymestyn y cyfleusterau allanol i ddarparu ystod ehangach o weithgareddau ar gyfer y plant.

A3 mireinio cynllun datblygu`r lleoliad i ganolbwyntio ar gyflawniad a lles y plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn y Cylch ac yn cyflawni'n dda, weithiau yn dda iawn. Mae gan bob plentyn sgiliau llythrennedd a rhifedd sy`n unol â`u hoed a'u gallu a sydd wedi datblygu'n dda. Mae`r plant yn cofio dysgu blaenorol, fel enwi dyddiau'r wythnos ac adnabod siapiau dau-ddimensiwn.

Mae gan yr holl blant fedrau gwrando da gan ymateb yn brydlon i gyfarwyddiadau. Maen nhw`n mwynhau storïau ac yn gallu dwyn i gof storïau blaenorol maen nhw wedi eu clywed. Mae pob plentyn yn ymuno'n frwdfrydig gyda chaneuon dosbarth, yn enwedig caneuon actol. Mae'r holl blant yn mwynhau edrych ar lyfrau stori gan wneud hyn heb anogaeth wrth iddynt gyrraedd yn y bore. Maen nhw`n trin llyfrau yn ofalus ac yn gywir heb gymorth oedolyn gan ddilyn y stori. Mae`r plant yn adnabod eu henwau wrth hunan gofrestru. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dal offer ysgrifennu'n gywir ac mae llawer yn gallu ysgrifennu llythyrennau adnabyddus o`r wyddor. Mae'r plant hyn yn trin offer bach yn gywir, fel wrth ddefnyddio siswrn. Maen nhw`n gwybod bod pwrpas i`w hysgrifen.

Mae'r holl blant yn dechrau cyfrif gwrthrychau yn gywir ac mae llawer yn cyfrif i 10 a nifer tu hwnt i 10. Mae gan y rhan fwyaf o blant eirfa fathemategol sy`n datblygu ac sy`n ddefnyddiol fel wrth ddisgrifio gwrthrychau "mawr" a "bach". Yn ystod eu chwarae, mae`r plant yn adnabod ac yn enwi siapiau dau-ddimensiwn cyffredin yn gywir, fel triongl, cylch a sgwâr.

Mae medrau technoleg gwybodaeth y plant (TGCh) yn datblygu'n foddhaol. Mae plant unigol yn rheoli tegan rhaglenadwy yn briodol gan ddefnyddio switshis a botymau ac mae lleiafrif yn dechrau deall sut y gall eiconau symud ar sgrin cyfrifiadur. Fodd bynnag, mae eu cymhwysedd yn gyfyngedig.

Mae gan y plant sgiliau corfforol sydd wedi`u datblygu`n dda. Mae pob plentyn yn defnyddio beiciau tair olwyn a beiciau yn fedrus yn berthnasol i'w hoed, gan ddangos sgiliau cydbwyso da. Yn yr un modd, mae medrau creadigol y plant wedi'u datblygu'n dda ac yn eu galluogi i beintio a chymysgu lliwiau yn briodol.

Mae sgiliau meddwl a datrys problemau`r plant yn datblygu'n dda. Mae'r holl blant yn mwynhau chwarae rôl ac yn hapus i drafod yr hyn maen nhw`n ei wneud gyda'u ffrindiau. Mae`r plant yn ddigon hyderus i weithio'n annibynnol ac mewn grwpiau bach yn ystod gweithgareddau chwarae.

Mae'r rhieni yn fodlon iawn gyda`r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn mwynhau dod i'r Cylch ac yn awyddus i gymryd rhan. Mae`r arferion wedi eu sefydlu'n dda ac wrth gyrraedd, mae pob plentyn yn chwilio yn weithredol am lyfr stori gan setlo i lawr yn gyflym i edrych ar eu llyfrau. Mae`r holl

blant yn gwybod yr hyn sy`n cael ei ddisgwyl ganddynt ac yn gweithredu yn unol â hynny. Mae digon o gyfleoedd i blant wneud dewisiadau ac i weithio'n annibynnol. Mae pob plentyn yn llawn cymhelliant ac yn dangos agwedd dda iawn at ddysgu, yn enwedig wrth ymwneud â thasgau â ffocws gydag oedolyn. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac yn trafod yr hyn sy`n cael ei wneud ac yn dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser.

Mae pob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn ffurfio perthynas dda gyda'i gilydd a gyda oedolion. Maen nhw`n cymryd cyfrifoldeb, er enghraifft wrth helpu i glirio i ffwrdd a thacluso ar ddiwedd y gweithgareddau.

Mae amser byrbryd yn weithgaredd cymdeithasol da lle mae plant yn dysgu cymryd cyfrifoldeb. Maen nhw`n ystyriol o'i gilydd ac yn barod i aros eu tro ac yn dangos hunanreolaeth ganmoliadwy.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r profiadau dysgu o ansawdd da ac mae`r staff yn sicrhau, trwy gynllunio gofalus, bod y gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn addas ar gyfer oedran a gallu`r plant. Mae`r profiadau dysgu yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant ac wedi'u ffocysu'n dda at symud y plant ymlaen tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae`r cynllunio yn rhoi ystyriaeth dda o wahanol alluoedd y plant ac mae`r tasgau â ffocws yn effeithiol iawn o ran darparu grwpiau o blant gyda gwaith sy'n eu cymell a`u symbylu.

Mae`r ymarferwyr yn cynllunio yn ystod cyfarfodydd wythnosol ac mae pob un yn cyfrannu'n adeiladol tuag at gwricwlwm hyblyg. Mae'n ystyried diddordebau ac awgrymiadau`r plant fel y gweithgareddau cafodd eu dewis o gwmpas y syrcas yn y dre.

Mae'r Cylch yn darparu`r plant â chyfleoedd gwerth chweil a buddiol i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd trwy gydol pob sesiwn. Mae`r plant yn hunan-gofrestru pan fyddant yn cyrraedd, ac mae`r rhan fwyaf o blant yn adnabod eu henwau ar gardiau cofrestru. Tra bod y plant yn aros i bawb gyrraedd, maen nhw`n dewis llyfr, a heb anogaeth gan oedolyn, yn setlo i lawr i edrych ar eu llyfrau. Mae hwn yn gyfle da cynlluniedig i blant trin llyfrau a dilyn y stori. Mae'r cynllunio yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu ac ymestyn medrau rhifedd plant trwy weithgareddau â ffocws a thrwy ddatblygu medrau mathemategol y plant yn eu gweithgareddau chwarae. Mae amser cylch yn cael ei gynllunio'n dda ac mae'r amser hwn yn cael ei ddefnyddio`n dda i ddatblygu sgiliau gwrando a siarad y plant. Mae`r gweithgareddau dyddiol wedi'u ffocysu'n dda ar ddatblygu perthynas dda, goddefgarwch a pharch at ei gilydd.

Mae`r sesiynau`n symud ymlaen ar gyflymder da gyda chyfleoedd ar gyfer gweithio unigol a dewis rhydd. Mae medrau corfforol a chreadigol yn rhan annatod o'r sesiynau ac mae`r plant yn dangos datblygiad da o`u medrau Mae defnydd da iawn yn cael ei wneud o'r ardal leol a thrwy ymweliadau â fferm leol, er enghraifft, mae`r plant yn dysgu am y gofal a pharch tuag at bethau byw.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru yn dda. Mae Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen yn cael eu dathlu. Mae`r eisteddfod leol yn y pentref ac ymweliadau â'r amgylchedd lleol hyn yn cyfoethogu ac yn gwella gwybodaeth y plant o Gymru a'r ardal leol.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff wybodaeth drylwyr o ddatblygiad plant a dealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae`r sesiynau wedi`u cynllunio`n dda ac yn symud ar gyflymder da, sy`n sicrhau bod yr holl blant yn cymryd rhan yn weithredol a gyda phwrpas.

Nodwedd rhagorol o`r addysgu yw ansawdd y cyflwyniad a dweud stori. Mae`r plant yn gwrando`n astud ar hanes bywyd yn Tsieina, dillad a bwydydd Tseiniaidd. Mae`r plant yn cael eu cyffroi, eu hysgogi a`u herio gan gymryd rhan yn weithredol.

Mae ymddygiad y plant yn cael ei reoli`n effeithiol ac mae gan oedolion ddisgwyliadau uchel o blant sy'n cael eu cyflawni yn ymarferol. Mae'r staff yn sensitif i'r angen i wrando ar blant.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolyn ac mae cyfleoedd gwerth chweil yn cael eu darparu i blant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol.

Mae`r oedolion yn sensitif i anghenion plant gan eu galluogi i weithio'n annibynnol, ond bob amser yn ymwybodol pan fydd angen cymorth. Mae holi a thrafod yn cael eu defnyddio'n dda i ddatblygu sut mae`r plant yn meddwl ac i'w herio. Ar y cyfan, mae`r gweithgareddau yn ddigon heriol gan ysgogi'r plant yn llwyddiannus.

Mae plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac mae`r arsylwadau`n cael eu cofnodi. Mae`r cofnod o gyflawniad plant yn rhoi cofnod diwedd blwyddyn i rieni. Mae canlyniadau`r asesu`n cael eu defnyddio'n dda iawn i gyfeirio cyfleoedd dysgu yn y dyfodol ac er mwyn cwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant. Mae`r tasgau â ffocws, sy`n seiliedig ar allu gwahanol y plant, yn llwyddo`n dda iawn i ddatblygu medrau plant unigol.

Mae'r Cylch yn defnyddio rhwydweithio cymdeithasol i gadw rhieni`n hysbys o weithgareddau dyddiol sy`n digwydd yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi rhieni i drafod gweithgareddau o'r fath gyda'u plentyn. Mae rhieni yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod materion sy'n peri pryder pan maen nhw`n cwrdd â'r staff bob bore. Fodd bynnag, mae`r arweinydd yn cysylltu â rhieni unigol yn rheolaidd drwy neges destun, e-bost a llythyr i'w hysbysu yn unigol am gynnydd eu plentyn a'r hyn y gallant ei wneud i helpu eu plentyn i wella. Mae hyn yn arfer da ac mae'r rhieni yn werthfawrogol iawn o wybodaeth o'r fath.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r trefniadau ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad y plant yn dda ac yn effeithio`n llwyddiannus ar safonau a lles y plant. Mae trefniadau effeithiol ar waith i annog y plant i fwyta`n iach, i olchi eu dwylo cyn bwyd ac i gymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd.

Mae`r profiadau dysgu`n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Mae`r plant yn deall pwysigrywdd helpu eraill ac mae hyn yn cael ei atgyfnerthu drwy ddewis “helpwr y dydd”. Mae`r gweithgareddau dyddiol yn canolbwyntio`n dda ar werthoedd fel gonestrywdd, tegwch a pharch ac yn hyrwyddo syniadau`r plant o`r hyn sy`n gywir ac anghywir.

Ar adegau gwahanol, mae`r holl blant yn dangos gallu i gymryd cyfrifoldeb, fel helpu i glirio i ffwrdd ar ddiwedd sesiwn ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o reolau ymddygiad, fel rhannu a gwrando ar erail.

Mae ymweliadau â`r ardal leol yn cael eu cynllunio`n dda i annog y plant i ddangos chwilfrydedd am y byd o`u cwmpas. Mae dathliadau o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen, yn rhoi dealltwriaeth dda o`u diwylliant eu hun i`r plant. Mae`r Cylch yn cymryd rhan hefyd yn yr eisteddfod leol.

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o ddiwylliannau eraill yn cael eu datblygu drwy astudiaethau o Tsieina, ei phobl a`i thraddodiadau. Mae`r plant yn blasu bwyd o Tsieina hefyd.

Mae dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd ac ail-gylchu`n datblygu`n briodol. Mae`r plant yn ail-gylchu pilion o`u byrbryd ffrwythau ac yn casglu papur gwastraff.

Mae gan y Cylch drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo a diogelu plant. Mae`r holl staff wedi derbyn hyfforddiant addas ac yn ymwybodol iawn o`r gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac ymateb i`r fath materion. Mae`r Cylch yn amgylchedd diogel ar gyfer y plant. Mae`r drysau ar glo bob amser a does neb yn medru dod i mewn neu adael heb rybudd. Mae`r polisiau a`r gweithdrefnau ar waith. Mae`r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn cwrdd â gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Nid oes un plentyn ar hyn o bryd sydd wedi`i nodi ag anghenion addysgol ychwanegol posibl. Fodd bynnag, mae gan y Cylch weithdrefnau da mewn lle yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r Cylch yn gymuned ofalgar a chefnogol sydd ag ethos cynhwysol. Mae hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol a chadarnhaol tuag at ddysgu a lles y plant. Mae`r staff yn annog y plant i barchu`i gilydd ac i gydnabod eu nodweddion. Mae`r plant yn dathlu eu traddodiadau eu hun ac eraill, fel y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd. Mae hyn yn ymestyn eu gwybodaeth o`u diwylliant eu hun a phobl eraill.

Mae`r Cylch wedi`i staffio`n dda gydag oedolion sy`n gymwys a phrofiadol sy`n cyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae gan y Cylch ddigon o adnoddau ac mae`r adnoddau`n cael eu defnyddio`n dda i gefnogi`r addysgu. Mae`r adeilad yn ddiogel ac yn cael ei chynnal yn dda gan ddarparu amgylchedd addas as gyfer dysgu. Mae`r ardal allanol ar bwys y prif ystafell addysgu ac yn cael ei defnyddio`n dda i gefnogi`r dysgu. Fodd bynnag, nid yw`n darparu ardaloedd addas ar gyfer tyfu hadau a phlanhigion ac i alluogi`r plant i ofalu amdanynt. Mae`r staff yn defnyddio`r ardal leol yn dda iawn i gyfoethogi`r ddarpariaeth gwricwlaidd. Mae hyn

yn cynnwys ymweliadau â`r ardal leol uniongyrchol ac ymhellach fel fferm leol, canolfan garddio a choedwig.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r lleoliad yn cael ei redeg a`i reoli`n dda iawn. Mae gweledigaeth glir yr arweinydd ar gyfer y lleoliad yn llwyddo i hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Mae`r staff yn gweithio`n effeithiol iawn fel tîm, yn rhannu amcanion a gwerthoedd ac yn cymryd rhan weithredol yn y cynllunio strategol ar gyfer gwelliant. Mae`r arweinydd yn rhoi amcanion a nodau clir ar gyfer y lleoliad, a thrwyddi draw, mae`r lleoliad yn dangos synnwyr cadarnhaol o gyfeiriad.

Mae`r arweinydd yn ymwybodol iawn o allu plant unigol ac yn gwneud defnydd da o`r wybodaeth hon drwy ddarparu gweithgareddau sy`n cyfateb yn dda ag anghenion y plant. Canlyniad hyn yw bod llawer o`r plant yn cyflawni`n uwch na`r disgwyl am eu hoedran.

Mae`r lleoliad yn dangos ethos cryf a chadarnhaol lle mae`r disgwyliadau uchel o`r plant yn cael eu gwireddu a`u dathlu. Mae`r plant yn cael eu rheoli`n dda iawn mewn ffordd dawel, anymwthiol, sy`n creu amgylchedd dysgu hynod o effeithiol.

Mae gwerthuso staff yn cael ei wneud yn reolaidd ac mae hyn yn effeithiol drwy wella`r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae`r cysylltiadau â rhieni`n dda iawn. Mae`r rhieni`n cael gwybod am y gweithgareddau sy`n digwydd o fewn y lleoliad drwy rwydweithio cymdeithasol. Mae adroddiadau unigol a chyfrinachol yn rhoi dadansoddiad manwl o`r hyn mae`r plant wedi`u cyflawni ac yn amlygu`r camau nesaf yn eu dysgu a sut mae rhieni yn medru cefnogi`u plant.

Mae`r Pwyllgor Rheoli`n cael eu hysbysu`n dda am gynnydd y lleoliad ac yn cymryd rhan weithredol. Mae blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a rhaglenni bwyta`n iach wedi`u datblygu`n llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o gryfderau`r lleoliad a`r meysydd i`w gwella. Mae hunanarfarnu yn cael ei gynnal yn reolaidd ac yn arwain at well ddarpariaeth ar gyfer y plant gyda`r canlyniad o wella cynnydd a chyflawniad y plant. Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth drylwyr o`r broses hunanarfarnu ac o ganlyniad mae`r cynllunio strategol yn effeithiol.

Mae gweithgareddau`r lleoliad yn cael eu monitro`n reolaidd gyda`r ffocws ar wella perfformiad. Mae`r lleoliad wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Mae`r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, ynghyd â`r staff, wedi cymryd rhan weithredol wrth gynhyrchu`r adroddiad hunanarfarnu. Mae`r adroddiad yn dangos yn glir yr hyn mae`r lleoliad yn ei wneud yn dda ac yn nodi meysydd i`w datblygu. Yn

ogystal, mae`r arweinydd wedi gwneud defnydd da o`i hymweliadau â`r ysgol gynradd leol a`r dosbarth derbyn i ymestyn ei chymhwysedd proffesiynol.

Mae`r cysylltiadau rhwng hunanarfarnu a cynllunio ar gyfer datblygu yn glir. Mae`r targedau yn realistig ac o fewn cyrraedd. Fodd bynnag, nid yw`r targedau bob tro`n canolbwyntio`n ddigonol ar wella cyflawniad a lles y plant.

Mae`r lleoliad yn elwa`n sylweddol o ymweliadau a chyngor gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae`r staff wedi elwa hefyd o hyfforddiant proffesiynol sydd o ganlyniad yn fuddiol i`r plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleolaid amrywiaeth fuddiol a gwerthfawr o bartneriaethau sy`n cyfrannu at ac yn ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae partneriaethau o`r fath wedi cyfrannu`n llwyddiannus at wella safonau a lles y plant.

Mae`r rhieni yn gefnogol iawn o`r lleoliad ac yn gweithio`n agos gyda`r staff er mwyn datblygu dysgu`r plant a hyrwyddo mentrau bwyta`n iach. Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi`r wybodaeth am y gweithgaredau sy`n cymryd lle yn y lleoliad a`r wybodaeth gyfrinachol am gyflawniadau eu plant.

Mae athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn darparu cyngor gwerthfawr. Mae`r bartneriaeth hon yn effeithiol drwy gefnogi medrau`r ymarferwyr a chodi safonau`r plant ymhellach.

Mae`r plant yn ymweld â`r ysgol gynradd leol bob pythefnos, sy`n eu galluogi i ddod yn gyfarwydd â`r ysgol ac i ddefnyddio`r cyfleusterau sydd yno ar gyfer gweithgareddau corfforol. Maen nhw`n cael eu paratoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae`r lleoliad yn weithgar yn y gymuned leol ac mae gan y plant gyfleoedd gwerth chweil i fod yn rhan o weithgareddau lleol, fel yr eisteddfod leol.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol ar waith i gynnwys asiantaethau arbenigol pan fydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y staff gymwysterau addas ac yn brofiadol yn gweithio gyda phlant. Mae defnydd da iawn yn cael ei wneud o fedrau unigol yr ymarferwyr ac mae`r adnoddau`n cael eu defnyddo`n dda iawn i gefnogi`r addysgu. Mae`r adnoddau`n cyfateb yn dda i anghenion y plant.

Mae cysylltiad agos rhwng y targedau sydd wedi`u gosod ar gyfer gwella a gwella`r ddarpariaeth, fel datblygu`r cyfleusterau tu allan.

Mae`r staff yn mynchu cyrsiau datblygiad proffesiynol sy`n sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am ddatblygiadau diweddar yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae`r Pwyllgor Rheoli yn dyrannu cyllid yn briodol yn ôl blaenoriaethau`r lleoliad, yn seiliedig ar wella`r ddarpariaeth ar gyfer y plant.

Mae`r lleoliad yn darparu amgylchedd dysgu o ansawdd da i`r plant.  Maen nhw`n derbyn gofal da gyda phob un yn cyflawni`n dda.

Drwyddi draw, mae`r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

*Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 20 | 12 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'nfodlonâ'rlleoliadyngyffredinol. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 20 | 19 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fymhlentynynhoffi'rlleoliadhwn. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 20 | 16 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafoddfymhlentyngymorthiymgartrefu'ndda pan ddechreuoddyn y lleoliad. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 20 | 15 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fymhlentynyngwneudcynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 20 | 15 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae plant ynymddwynynddayn y lleoliad. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 20 | 14 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'raddysguyndda. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 20 | 18 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yntrinpobplentynyndeg a gydapharch. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 20 | 15 | 5 | 0 | 0 | 0 | Caifffymhlentyneiannogifod yniach ac iwneudymarfercorffynrheolaidd. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 20 | 15 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fymhlentynynddiogelyn y lleoliad. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 16 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fymhlentynyncaelcymorthychwanegolpriodolmewnperthynasagunrhywanghenionunigolpenodol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 25% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed | 20 | 12 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'ncaelgwybodaethgyso |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'ngryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'ngryf | Don't know<br>Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| about my child's progress. | | 60% | 40% | 0% | 0% | | n am gynnyddfymhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 20 | 18 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'nteimlo'ngysurusynglŷn â gofyncwestiwni'rlleoliad, gwneudawgrymiadauneunodi problem. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 20 | 13 | 7 | 0 | 0 | 0 | Rwy'ndealltrefn y lleoliadargyferdelio â chwynion. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 30% | 3% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 20 | 14 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fymhlentynwedi'ibaratoi'nddaargyfersymudymlaeni'rysgol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 70% | 24% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 20 | 17 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaethdda o weithgareddau, gangynnwysteithiauneuymweliadau. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 31% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 20 | 18 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'rlleoliadyncaeleiredegyndda. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

**Yr  arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |